# Plant yn y ddalfa 2024–25

Dadansoddiad o ganfyddiadau pobl ifanc 12–18 oed o'u profiadau mewn canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyr ifanc

Medi 2025



# Cynnwys


Cyflwyniad ........................................................................................... 3

Cefndir..................................................................................................... 4

Trosolwg o adolygiadau annibynnol o gynnydd.................................................. 7

Adran 1 Pwy yw'r plant yn y ddalfa?............................................................ 9

Adran 2 Nid yw'r canfyddiadau o ddiogelwch wedi gwella ........................... 12

Adran 3 Rheoli ymddygiad yn aneffeithiol .................................................. 14

Adran 4 Perthynas wan â'r staff ................................................................. 19

Adran 5 Effaith ar addysg a gweithgareddau .............................................. 22

Atodiad I Nodweddion demograffig a chefndir ......................... 27

Atodiad II Methodoleg............................................................... 30

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad o arolygon a gynhaliwyd mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr ac yng Nghanolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'n canfyddiadau o adolygiadau annibynnol o gynnydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn. Fel y llynedd, mae'r canlyniadau'n parhau i fod yn bryderus o wael ac, mewn rhai achosion, mae canfyddiadau plant o'u cyfnod yn y ddalfa wedi gwaethygu.

Mae gormod o blant yn dal i dreulio cyfnodau hir dan glo y tu ôl i ddrws eu cell. Dim ond 61% o'r rhai a holwyd a ddywedodd eu bod yn cael mwy na dwy awr allan o'u cell yn ystod yr wythnos, a oedd yn gostwng i 45% ar y penwythnos. Pan fydd plant yn cyrraedd addysg neu weithgareddau eraill, pur anaml y mae ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael yn ddigon da ac mae'r sesiynau'n aml yn cael eu cyfyngu neu eu cwtogi oherwydd prinder staff. Roedd y canfyddiadau o'n harolygiad o Cookham Wood yn 2023 yn warthus, a chaewyd y sefydliad yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gan ychwanegu mwy o bwysau ar sefydliadau eraill a oedd eisoes yn wynebu trafferthion.

Mae lefelau trais yn parhau i fod yn uwch o lawer nag yn yr ystad oedolion, ac felly nid yw'n syndod nad yw canfyddiadau plant o ddiogelwch wedi gwella. Bu methiant i gyflwyno a defnyddio systemau rheoli ymddygiad effeithiol, ac mae nifer y plant sy'n dweud eu bod yn cael eu cefnogi a'u cymell i ymddwyn, yn bryderus o isel.

Mae plant yn aml yn negyddol am effeithiolrwydd staff ac eleni, dim ond 49% o blant oedd yn teimlo bod y rhan fwyaf o staff yn gofalu amdanynt. Er bod mwy o staff o lawer na phlant ym mhob sefydliad, dywedodd un o bob tri phlentyn nad oedd ganddynt neb i droi ato petai ganddynt broblem. Mae 40% o'r plant ar remánd, yn aml am gyfnodau byr; mae hyn yn golygu nad oes digon o amser i feithrin y perthnasoedd cryf a chefnogol sy'n hanfodol i adsefydlu'r plant cythryblus hyn.

Fodd bynnag, mae Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn parhau i fynd yn groes i'r duedd, ac mae'n llawer mwy effeithiol na'r sefydliadau eraill rydym yn eu harolygu. Mae plant yn y sefydliad hwn yn fwy cadarnhaol o lawer am amser allan o'r gell, rheoli ymddygiad a pherthynas â staff. Rhaid i'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa ddysgu o lwyddiant y Parc a'i ddefnyddio fel meincnod i fesur gwelliannau o ran yr amodau i blant a sut cânt eu trin mewn mannau eraill.


**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai
Medi 2025

# Cefndir

Yn 2024-25, roedd plant yn y ddalfa yn cael eu cadw mewn un o bedwar lleoliad: Canolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill, Cartrefi Diogel i Blant, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a'r ysgol ddiogel sydd newydd agor - Oasis Restore - a oedd yn derbyn plant o fis Awst 2024. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF Cookham Wood ei gofrestru fel carchar i ddynion sy'n oedolion ar ôl methu gwella canlyniadau i blant yn gyson, ac i helpu i fynd i'r afael â'r galw hollbwysig am fwy o lety yn yr ystad oedolion.

Wrth i ystad y plant fynd yn fwy tameidiog, mae wedi dod yn fwyfwy anodd asesu canlyniadau, mesur cynnydd neu gymharu'r gwahanol fathau o sefydliadau sy'n cadw plant.

**Ffigur 1: Map o siroedd lle caiff Gwasanaethau Ieuenctid yn y Ddalfa eu harolygu gan Arolygiaeth Carchardai EF**




Y tu hwnt i'r adran hon, mae'r adroddiad hwn yn defnyddio canfyddiadau arolygiadau ac arolygon plant a staff a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF yn 2024-25 mewn pum Sefydliad Troseddwyr Ifanc ac un Ganolfan Hyfforddi Ddiogel ledled Cymru a Lloegr.

Nid oes gan Arolygiaeth Carchardai EF gylch gwaith i arolygu'r ysgol ddiogel na'r Cartrefi Diogel i Blant. Ofsted yn Lloegr, ac Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn yng Nghymru sy'n gyfrifol am hyn yn statudol.

Yn 2024-25, gostyngodd nifer y plant a oedd yn cael eu cadw mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ar ôl cynyddu y llynedd. Yn 2024-25, 432 oedd poblogaeth gyfartalog plant a phobl ifanc yn y sefydliadau hyn, sy'n cynnwys rhai dros 18 oed, o gymharu â 939 yn 2015-16. Mae'r boblogaeth is wedi gwella cymarebau staff-i-blant ym mhob lleoliad ac mae pob safle wedi parhau i weithredu yn is o lawer na’r trothwy capasiti.

**Ffigur 2: Mae poblogaethau Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn parhau i ostwng yn y tymor hwy, er bod y gostyngiad wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf**

Mae data'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa, Cymru a Lloegr, yn cynnwys pobl ifanc 18 oed





Ffynhonnell: Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa, 2025

Er gwaethaf y gostyngiad hwn yn y boblogaeth, mae nifer y plant sy'n cael eu cadw ar remánd wedi sefydlogi.

**Ffigur 3: Mae cyfran y plant ar remánd wedi cynyddu, wrth i'r boblogaeth a ddedfrydwyd mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ostwng dros amser**

Mae data'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa, Cymru a Lloegr, yn cynnwys pobl ifanc 18 oed





Ffynhonnell: Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa, 2025


# Trosolwg o adolygiadau annibynnol o gynnydd

Yn 2024-25, cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai EF bum adolygiad annibynnol o gynnydd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc i fynd ar drywydd y pryderon a godwyd mewn arolygiadau llawn yn 2023-2024. Yn yr arolygiadau hyn, gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn gallu rheoli lefelau uchel iawn o drais ac anhrefn ac roedd y rhan fwyaf o arweinwyr yn ceisio cadw plant a oedd yn gwrthdaro ar wahân. Fodd bynnag, roedd lefelau'r gwrthdaro mor uchel fel bod y strategaeth hon yn golygu nad oedd plant yn gallu cael mynediad at raglenni addysg neu ymddygiad troseddol, a arweiniodd at dreulio’r rhan fwyaf o'u diwrnodau dan glo ar eu pen eu hunain yn eu celloedd. Gwelsom y canlyniadau gwannaf yn ein profion diogelwch a gweithgarwch pwrpasol. Dim ond y Parc oedd yn ddigon diogel ac nid oedd yr un o'r Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn darparu addysg addas i'r plant yn eu gofal.

Aethom ar drywydd 41 o bryderon ar draws y pum Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Nid oedd digon o gynnydd ystyrlon, neu ddim cynnydd o gwbl, mewn 17 o feysydd, ac roedd cynnydd cymharol dda neu dda mewn 24 o feysydd.

**Ffigur 4: O'r 41 o bryderon yr aethom ar eu trywydd, roedd 57% wedi gwneud cynnydd da neu eithaf da**
Canfyddiadau Adolygiadau Annibynnol o Gynnydd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc 2024-25






Noder: Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd y canrannau'n dod i gyfanswm o 100%

Er bod y darlun yn ymddangos yn gadarnhaol ar y cyfan, mae'n cuddio diffyg cynnydd yn y meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf: rheoli ymddygiad, yr amser y mae plant yn ei dreulio allan o'u celloedd a darpariaeth ac ansawdd addysg.

Roedd llawer o'r gwendidau sylfaenol a nodwyd yn arolygiadau 2023-24 yn parhau. Nid oedd llawer i gymell plant ac nid oedd staff yn aml yn herio ymddygiad gwael yn effeithiol. Roedd hyn yn caniatáu i ymddygiad gwael y plant waethygu ac yn ei gwneud yn fwy anodd o lawer cyflwyno trefn bwrpasol yn ddiogel. Gydag ychydig iawn o amser allan o'u celloedd, nid oedd gan blant ddigon o amser i feithrin perthynas â staff, mynychu lefel ystyrlon o addysg na chymryd rhan mewn gweithgareddau defnyddiol eraill.

Er bod angen cau Cookham Wood, roedd gwneud hyn yn arwydd o analluedd arweinwyr i wneud gwelliannau ar y safle. Effeithiodd y cau ar Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill, yn fwyaf arbennig Feltham, y cynyddodd ei ddalgylch ar gyfer derbyn plant gan arwain at gynnydd yn y boblogaeth ynghyd â'r potensial ar gyfer trais.

Canfu ein hymweliad cyntaf â chanolfan Oakhill broblemau tebyg a barnwyd ei bod yn annigonol. Roedd yn gwahanu plant a oedd yn gwrthod mynd i addysg fel mater o drefn ac roedd gwendidau mewn gofal iechyd. Fodd bynnag, yn ein dau ymweliad dilynol, roedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym.

# Adran 1 Pwy yw’r plant yn y ddalfa?

1.1 Ar ddiwrnod yr arolwg, mae Arolygiaeth Carchardai EF yn ceisio cynnig holiadur i bob plentyn yn y sefydliad ei lenwi ei hun, sy'n ymdrin â gwybodaeth ddemograffig. Ar gyfer yr adroddiad blynyddol hwn, caiff y data o'r holl arolygon drwy gydol y flwyddyn ei gyfuno. Oherwydd natur data hunan-gofnodedig, efallai na fydd y cyfrannau a welwyd yn cyd-fynd ag ystadegau cenedlaethol. Yn hytrach, maent yn adlewyrchu atebion y plant.


1.2 Mae'r mwyafrif llethol o blant yn y ddalfa yn fechgyn ac mae bron bob un ohonynt dros 15 oed.

1.3 Mae data ein harolwg yn dangos yn gyson bod plant mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn wahanol iawn i'r boblogaeth yn y gymuned. O'r plant a arolygwyd yn 2024-25, dywedodd 65% wrthym eu bod wedi bod mewn gofal awdurdod lleol o'r blaen, dywedodd 46% fod ganddynt broblemau iechyd a dywedodd 33% eu bod yn anabl, gan dynnu sylw at y dechrau anodd y mae llawer ohonynt yn ei gael cyn iddynt ddod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol. Dywedodd un o bob 10 eu bod yn rhieni eu hunain. Dywedodd wyth y cant o blant eu bod yn dod o'r gymuned teithwyr, sef y grŵp sy'n parhau i gael ei orgynrychioli fwyaf yn y ddalfa i blant.

## Plant ar remánd

1.4 O’r plant a ymatebodd i’n harolwg, roedd 40% naill ai heb eu dyfarnu’n euog ac yn cael eu dal ar remánd, neu’n aros i gael eu dedfrydu. Mae hyn yn gyfran uwch o lawer nag yn y system oedolion.

**Ffigur 5: Mae cyfran y plant nad ydynt wedi cael eu dedfrydu yn uwch nag yn yr ystad oedolion**
Ymatebion dynion a menywod sy'n oedolion a arolygwyd yn ystod blwyddyn adrodd flynyddol 2024-25 Arolygiaeth Carchardai EF, a phlant a arolygwyd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel ym mlwyddyn adrodd flynyddol 2024-25





Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

## Oedolion ifanc yn ystad y plant

1.5 Mae nifer y bobl ifanc 18 oed yn ystad y plant yn dal yn uchel ac yn cyfrif am 27% o'r boblogaeth gyffredinol. Y prif reswm nad yw hyn wedi dychwelyd i lefelau blaenorol yw amharodrwydd sefydliadau oedolion i gymryd yr oedolion ifanc hyn, er gwaethaf newid mewn polisi. O ganlyniad, mae nifer y plant sy'n troi'n 18 oed yn y ddalfa yn debyg i'r nifer sy'n cael eu trosglwyddo allan o'r system.

**Ffigur 6: Mae canran yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n 18 oed a hŷn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel





Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF

## Mae rhai grwpiau'n parhau i gael eu gorgynrychioli

1.6 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi bod yn fwy llwyddiannus o lawer am ddargyfeirio rhai grwpiau o blant o'r ddalfa nag eraill. O ganlyniad, er bod nifer y plant sy'n yn y ddalfa wedi gostwng, mae plant Mwslimaidd a'r rheini o gefndiroedd ethnig leiafrifol wedi cael eu gorgynrychioli fwyfwy o gymharu â data o gyfrifiad 2021. Yn 2024-25, mae'r duedd hon wedi parhau - mae plant o grwpiau ethnig ar wahân i wyn yn cynrychioli 63% o'r boblogaeth, o gymharu â 33% pan ddechreuwyd gofyn y cwestiwn hwn yn 2001. Yn ogystal, mae plant Mwslimaidd bellach yn cyfrif am draean o'r boblogaeth.

**Ffigur 7: Mae canran yr ymatebwyr i'r arolwg o grŵp ethnig ar wahân i wyn wedi cynyddu**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF


# Adran 2 Nid yw'r canfyddiadau o ddiogelwch wedi gwella

> “Dydw i ddim yn meddwl bod [bod yn y ddalfa] yn helpu i stopio troseddu. Ers bod yma, dwi wedi dod yn hynod dreisgar ac yn ymateb yn fyrbwyll”.
>
> **Plentyn yn Wetherby**

2.1 O'r plant a arolygwyd yn 2024-25, dywedodd 16% eu bod yn teimlo'n anniogel adeg yr arolwg, a dywedodd 43% eu bod wedi teimlo'n anniogel ar ryw adeg ers iddynt fod yn y ddalfa. Roedd y rhain ymysg yr ymatebion gwaethaf a welsom yn ein harolygon.

2.2 Roedd canfyddiadau plant o ddiogelwch yn amrywio'n enfawr ar draws sefydliadau. Yn Cookham Wood, roedd 29% o blant yn teimlo'n anniogel adeg ein hymweliad, o gymharu ag 11% yn y Parc.

**Ffigur 8: Mae canran y plant sydd wedi teimlo'n anniogel ar ryw adeg ac sy’n teimlo'n anniogel nawr wedi cynyddu**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF

2.3 Dywedodd 61% o'r plant a holwyd eu bod wedi profi rhyw fath o fwlio, trais neu erledigaeth gan blant eraill. Dywedodd dros hanner (57%) eu

bod wedi cael eu cam-drin yn eiriol, a dywedodd 30% fod eu cyfoedion wedi ymosod arnynt yn gorfforol.

2.4 Yn frawychus, dim ond 27% o blant a ddywedodd y byddent yn rhoi gwybod i staff am fwlio neu erledigaeth gan blant eraill. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu nad yw pobl ifanc yn rhoi gwybod yn ddigonol am bob math o fwlio a thrais mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel, sy'n bryder mawr pan mae lefelau trais a adroddir eisoes yn uchel ar draws yr ystad.

2.5 O'r 41 o bryderon y gwnaethom eu holrhain eleni, roedd tri yn ymwneud â’r trefniadau rheoli ymddygiad gwael a thrais a welwyd yn ein harolygiadau o Cookham Wood, Feltham a Werrington yn 2023-24. Ym mhob un o'r tri achos, nid oedd y cynnydd yn erbyn y pryderon hyn yn ddigonol.



**Cell plentyn sy'n cynnwys graffiti hiliol yn y gawod, Adolygiad Annibynnol o Gynnydd Cookham Wood, Ebrill 2024**


2.6 Yn Feltham, nid oedd trais wedi lleihau, ac roedd digwyddiadau difrifol yn cynyddu, a oedd wedi cael effaith enfawr ar y plant a'r staff a anafwyd yn y digwyddiadau hyn. Arweiniodd hyn at brinder staff gan leihau gallu'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc i ddarparu gwasanaethau pwysig i blant.

# Adran 3 Rheoli ymddygiad yn aneffeithiol

3.1 Un o'r problemau parhaus a welir yn ystad y plant yw natur aneffeithiol y cynlluniau gwobrwyo neu gymell ar gyfer ymddygiad da. Eleni, dim ond 34% o blant a ddywedodd fod y cynlluniau hyn yn eu hannog i ymddwyn yn dda.

3.2 Fodd bynnag, roedd y canfyddiadau'n amrywio'n sylweddol ar draws y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a'r Canolfannau Hyfforddi Diogel. Yn Feltham, dim ond 19% ddywedodd eu bod yn cael eu hannog gan gynlluniau gwobrwyo neu gymell, ond yn y Parc, dywedodd 72% fod hyn yn wir. Roedd yn destun pryder mai Parc, y sefydliad lleiaf rydym yn ei arolygu, oedd yr unig safle lle'r oedd dros hanner y plant yn adrodd yn gadarnhaol am reoli ymddygiad.


**Ffigur 9: Mae canran y plant a ddywedodd fod y gwobrwyon neu'r cymhellion am ymddygiad da yn eu hannog i ymddwyn yn is nag yn y blynyddoedd diwethaf**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF

3.3 Dim ond 26% o blant ddywedodd fod y cynlluniau gwobrwyo neu gymell yn deg ac, unwaith eto, dywedodd mwy o blant yn y Parc fod hyn yn wir nag mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc eraill. Y prif bryder i lawer o blant oedd nad oedd y rhai a oedd yn ymddwyn ac a oedd ar frig y cynllun cymell yn cael eu gwobrwyo.

**Ffigur 10: Dywedodd mwy o blant yn y Parc nag mewn safleoedd eraill fod y system wobrwyo yn deg ac yn eu cymell i ymddwyn yn dda**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel





Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

> "Dylai pobl sydd ar aur gael mwy o amser allan o'u cell oherwydd gallant brofi i chi eu bod yn newid a'u bod eisiau bwrw eu dedfryd a mynd adref."
>
> **Plentyn yn Werrington**

3.4 Yn Werrington, gwelsom nad oedd staff bob amser yn gyson wrth herio na mynd i'r afael ag ymddygiad gwael o ddydd i ddydd, fel rhwystro paneli arsylwi a chwarae cwffio. Roedd y methiant hwn i osod safonau sylfaenol yn tanseilio gallu staff i ddelio ag ymddygiad mwy difrifol fel trais.

3.5 Roedd plant yn fwy tebygol o ddweud bod staff wedi siarad â nhw am eu hymddygiad negyddol yn hytrach na chadarnhaol, er gwaethaf tystiolaeth sy'n dangos bod cynlluniau rheoli ymddygiad yn gweithio'n well pan roddir mwy o sylw i'r rhai sy'n ymddwyn yn dda. Mae hon wedi bod yn broblem barhaus dros nifer o flynyddoedd ac fe'i nodwyd yn wendid mor bell yn ôl â 2018 yn ein harolygiad thematig ar reoli ymddygiad.

**Ffigur 11: Mae canran y plant sy'n cael gwybod gan staff pan fydd eu hymddygiad yn dda wedi bod yn gyson is na'r ganran sy'n cael gwybod beth maen nhw wedi'i wneud o'i le pan fyddan nhw'n mynd i drwbl**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel





Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF

3.6 Roedd y plant yn cael cyn lleied o amser allan o'u celloedd, fel nad oedd llawer y gallai'r staff ei gynnig iddynt i wobrwyo ymddygiad da. Roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd gan staff freintiau i dynnu oddi wrth y plant pan fyddent yn ymddwyn yn wael. Yn Cookham Wood, roedd y system ddyfarnu yn anhrefnus ac nid oedd yn delio ag achosion mwy difrifol o ymddygiad gwael, gan gynnwys trais.

> ‘Yn ystod y chwe mis diwethaf, cafwyd 592 o ddyfarniadau, y rhan fwyaf ar gyfer troseddau treisgar ac eitemau heb eu hawdurdodi fel cyffuriau neu arfau. Nid oedd ychydig o dan hanner y rhain wedi'u profi, yn aml oherwydd eu bod wedi rhedeg allan o amser yn hytrach nag oherwydd diffyg tystiolaeth’.
>
> **Adroddiad Adolygiad Annibynnol o Gynnydd Cookham Wood, 2024**

3.7 Yn absenoldeb cynlluniau rheoli ymddygiad effeithiol, roedd staff yn rhy aml yn ceisio cadw plant ar wahân, neu mewn achosion eithafol yn gwahanu plant yn llwyr oddi wrth eu cyfoedion. Mae tystiolaeth o'n harolygiadau yn awgrymu bod yr ymyriadau lefel uchel hyn wedi dod yn gyffredin: Dywedodd 61% o blant eu bod wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion oherwydd rhywbeth yr oeddent wedi'i wneud. Er bod hyn yn amrywio o 81% yn Cookham Wood i 51% yn Feltham, roedd yn fwy na hanner y plant ym mhob Sefydliad Troseddwyr Ifanc a Chanolfan Hyfforddi Ddiogel.

**Ffigur 12: Roedd canran y plant a ddywedodd eu bod wedi cael eu cloi yn eu cell a'u hatal rhag cymysgu â phobl ifanc eraill fel cosb ar ei huchaf yn Cookham Wood ac yn amrywio yn ôl safle**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

> "Rydw i wedi bod ar reol 49 [wedi gwahanu] ers dau fis a dim ond 20 munud o addysg un i un bob dydd maen nhw wedi'i chynnig i fi - heb amser iard nac ymarfer corff, sy'n golygu 23:40 awr dan glo bob dydd. Mae'r staff yn gwneud i chi deimlo fel pe baen nhw wedi anghofio amdanoch chi ac maen nhw wedi gadael i fy iechyd meddwl ddirywio".
>
> **Plentyn yn Wetherby**

3.8 Mewn rhai achosion, roedd plant mor ofnus fel nad oeddent yn gadael eu celloedd o gwbl. Roedd y plant hyn yn cael eu rheoli gan ddefnyddio'r un broses wahanu â'r rheini a oedd wedi cael eu cadw ar wahân (*segregated*) oherwydd eu bod yn risg i eraill, ond roeddent yn aml yn aros yn eu celloedd am fwy o amser.


**Gwahanu plant - Adolygu'r cynnydd**

Yn 2020, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EF adroddiad thematig, 'Separation of children in young offender institutions'. Roedd y canfyddiadau'n frawychus, gydag achosion eang o gaethiwo plant ar eu pen eu hunain, a phlant yn treulio dros 22 awr y dydd dan glo yn eu celloedd heb oruchwyliaeth na chyswllt ystyrlon â neb.

Yn ddigalon, gyda lefelau uchel o drais ac anhrefn yn gyffredin mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, mae bron bob un o'r methiannau a amlinellir yn yr adroddiad wedi parhau. Canfu ein hadolygiad o gynnydd yn 2024 fod 479 o blant wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion yn 2023-24, naill ai oherwydd eu bod yn peri risg i ddiogelwch neu oherwydd eu bod wedi dewis aros yn eu celloedd, neu yn bennaf oherwydd eu bod yn poeni y byddent yn ymwneud â thrais neu oherwydd eu bod yn ofni mentro allan.

Gwelsom fod llawer o blant yn dal i gael eu caethiwo ar eu pen eu hunain ac nad oeddent yn gallu cael gafael ar bethau sylfaenol bob dydd, gan gynnwys ymarfer corff. Roedd yr arweinwyr yn methu sicrhau bod y rhan fwyaf o'r plant sy'n cael eu gwahanu yn cael digon o addysg ac ymyriadau eraill; mewn rhai achosion, ychydig funudau'r dydd yn unig y byddent yn ei gael. Yn yr achosion gwaethaf, ar rai diwrnodau, nid oedd y plant yn gadael eu cell am unrhyw reswm o gwbl.





**Cell uned wahanu (*segregation*) Feltham (chwith) a chell wahanu Cookham Wood ar yr adain (dde)**


# Adran 4 Perthynas wan â’r staff

4.1 Yn y rhan fwyaf o sefydliadau plant rydym yn eu harolygu, nid yw'r berthynas rhwng y staff a'r plant yn ddigon da. Mae hyn yn atal staff rhag gallu cymell plant yn effeithiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau a herio eu hymddygiad gwael.

4.2 Yn 2024-25, dim ond 49% o blant oedd yn teimlo bod staff yn gofalu amdanynt, ac er bod mwy o staff o lawer na phlant ym mhob sefydliad, dywedodd un o bob tri phlentyn nad oedd ganddynt neb i droi ato petai ganddynt broblem.

4.3 Dim ond yn y Parc, lle'r oedd 85% o blant yn teimlo bod y staff yn gofalu amdanynt, yr oedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn ddigon da.

**Ffigur 13: Roedd canran y plant a ddywedodd eu bod yn teimlo bod staff Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn gofalu amdanynt dros ddwywaith yn fwy na'r ganran mewn rhai safleoedd eraill**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel





Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

4.4 Roedd yr ymatebion drwy gydol yr arolwg yn dangos effeithiau'r perthnasoedd gwael hyn. Er enghraifft, 52% yn unig o'r plant a gyrhaeddodd gyda phroblemau a ddywedodd eu bod yn cael cymorth gan staff.

4.5 Ar ben hyn, dywedodd dim ond 69% o blant fod staff yn eu hannog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith. Roedd hyn yn amrywio o 51% yn Cookham Wood i 96% yn y Parc.

**Ffigur 14: Roedd canran y plant a ddywedodd fod staff yn eu hannog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith ar ei huchaf yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc ac ar ei hisaf yn Cookham Wood**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel





Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

4.6 Yn yr un modd, dim ond 66% ddywedodd fod staff yn eu cefnogi i gyflawni amcanion neu dargedau eu cynllun dedfrydu. Roedd hyn yn amrywio o 45% yn Cookham Wood i 90% yn y Parc.

4.7 Yn bryderus, dywedodd 45% o blant eu bod wedi cael eu herlid gan staff. Yn fwyaf cyffredin, cam-drin geiriol oedd hyn, a adroddwyd gan 39% o blant, ond dywedodd 17% fod staff wedi ymosod arnynt yn gorfforol. Nid yw'n syndod bod y materion hyn yn llai cyffredin yn y Parc lle'r oedd y berthynas rhwng staff a phlant yn well.

**Ffigur 15: Roedd canran y plant a oedd wedi rhoi gwybod am gam-drin geiriol neu gorfforol gan staff yn amrywio yn ôl safle**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF

4.8 Yn yr un modd â blynyddoedd eraill, dywedodd canran fach ond sylweddol o blant, sef 4%, fod staff wedi ymosod yn rhywiol arnynt ac roedd hyn mor uchel â 15% yn Oakhill. Yn unol â'n polisi amddiffyn plant, atgyfeiriodd Arolygiaeth Carchardai EF bob plentyn a ddywedodd ei fod wedi dioddef ymosodiad corfforol neu rywiol at dimau diogelu i gynnal ymchwiliad.

# Adran 5 Effaith ar addysg a gweithgareddau


5.1 Roedd y cyfuniad o berthnasoedd gwan â staff, diffyg cymhelliant, a lefelau uchel o drais anrhagweladwy a oedd yn aml yn ddi-hid, yn golygu nad oedd llawer o blant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cynhyrchiol yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

> "A dweud y gwir, dydy'r carchar/Sefydliad Troseddwyr Ifanc yma ddim yn dda. Dwi yn fy nghell y rhan fwyaf o'r amser gan fod addysg yn cael ei chanslo'n aml. Bron bob dydd ers tro dwi yn fy nghell am 23 awr ac ar y penwythnos, weithiau dwi yn fy nghell am 24 awr. Mae'n effeithio cryn dipyn arna i. Hefyd, dydy'r carchar ddim yn ddiogel iawn, nid dim ond i fi ond i bawb, y staff a'r troseddwyr ifanc. Mae angen i fi ganolbwyntio ar fy nedfryd, a dydw i ddim yn teimlo fy mod i'n gallu gwneud hynny yma".
>
> **Plentyn yn Cookham Wood**

## Amser allan o'r gell


5.2 Roedd nifer y plant a ddywedodd eu bod yn treulio mwy na dwy awr allan o'u cell yn ystod yr wythnos wedi gostwng i 61% a dywedodd llai na hanner (45%) fod hyn yn wir ar y penwythnos. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn well o lawer yn Oakhill a'r Parc lle gwelsom drefn ddyddiol gyson.

**Ffigur 16: Mae canran y plant sy'n dweud eu bod yn treulio dwy awr neu fwy allan o'u cell yn ystod yr wythnos wedi gostwng, ond mae'n parhau i fod yn debyg ar y penwythnos**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2023-24 a 2024-25

**Ffigur 17: Roedd canran y plant sy'n dweud eu bod yn treulio dwy awr neu fwy allan o'u cell yn ystod yr wythnos yn uwch nag ydoedd ar y penwythnos**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

5.3 Eleni, fe aethom ar drywydd tri phryder ynghylch yr amser y mae'r plant yn ei dreulio y tu allan i'w cell yn Feltham, Werrington a Wetherby. Er bod y cynnydd yn rhesymol yn Wetherby, nid oedd yn ddigonol yn Werrington, ac yn Feltham ni wnaed unrhyw gynnydd ystyrlon.

"Rydw i'n cael 30 munud o amser iard y dydd ac weithiau addysg ar yr adain am 45 munud. CARCHAR TREISGAR IAWN".

**Plentyn yn Werrington**

5.4 Yn Wetherby, cynlluniwyd yn ofalus i gyflawni newidiadau i wella amser allan o'r gell i blant. Roedd hyn yn cynnwys datblygu proffil staffio newydd a threfn ddyddiol a roddwyd ar waith yn ystod wythnos ein hymweliad adolygu. Fodd bynnag, roedd canfyddiadau a oedd yn peri pryder yn Feltham:


'Yn ystod haf 2024, bu nifer fach o ddigwyddiadau difrifol o anhrefn a oedd wedi cael effaith drychinebus ar adnoddau staffio. Yn ystod y cyfnod hwn, gostyngodd yr amser allan o'r gell i'w lefel isaf, gyda hanner y boblogaeth yn cael llai na dwy awr allan o'r gell bob dydd a rhai plant yn cael llai na 30 munud, a oedd yn annerbyniol'.

**Adroddiad Adolygiad Annibynnol o Gynnydd Feltham A, 2024**

## Gweithgarwch pwrpasol

5.5 O ran mathau o weithgareddau, dywedodd y plant yn fwyaf cyffredin eu bod yn cymryd rhan mewn rhaglenni addysg ac ymddygiad troseddol. Dywedodd niferoedd llai eu bod yn cymryd rhan mewn gwaith am dâl a hyfforddiant galwedigaethol.

**Ffigur 18: Roedd plant yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi cymryd rhan mewn addysg nag unrhyw fath arall o weithgarwch pwrpasol**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

5.6 Fodd bynnag, dywedodd 22% o blant nad oeddent yn gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau hyn; roedd hyn yn amrywio o 39% yn Feltham i 4% yn y Parc.

**Ffigur 19: Dywedodd 39% o blant yn Feltham A nad oeddent yn cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau a restrir, ond roedd y ffigur hwn yn is o lawer yng Nghanolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc**
Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel




Ffynhonnell: Data Arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2024-25

5.7 Yn ogystal â phlant ddim yn cael digon o addysg, roedd problemau o ran ansawdd y ddarpariaeth, fel y nodwyd yn ein harolwg thematig ar y cyd ag Ofsted, 'A decade of declining quality of education in young offender institutions: the systemic shortcomings that fail children', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024.

5.8 Adolygodd yr arolygiad thematig hwn 32 o adroddiadau arolygu llawn, a phum adroddiad yn dilyn adolygiadau annibynnol o gynnydd, dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mawrth 2024. Daeth i'r casgliad canlynol:

> 'Yn rhy aml o lawer, mae ein cydweithwyr yn Ofsted yn canfod bod presenoldeb yn isel iawn, nad yw ymddygiad yn ddigon da, nad yw'r cwricwlwm yn addas, a bod ansawdd yr addysgu'n wael. Mae angen i ansawdd yr addysg yn ein Sefydliadau Troseddwyr Ifanc gael ei weddnewid os ydyn ni eisiau gweld llai o droseddu ymysg pobl ifanc a mwy o blant yn mynd ymlaen i fyw bywydau llwyddiannus."

5.9 Gwelsom fod y berthynas rhwng darparwyr addysg a llywodraethwyr yn wael, a bod yr adnoddau a'r seilwaith o ansawdd isel, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth budr gyda graffiti sarhaus ar y waliau, diffyg byrddau gwyn ac, mewn rhai achosion, diffyg cadeiriau hyd yn oed.

5.10 Roedd prinder staff dybryd mewn adrannau addysg, ac yn aml roedd gan y staff lefelau cymwysterau isel a diffyg hyfforddiant, a oedd yn golygu bod plant yn cael addysg o ansawdd gwael nad oedd yn diwallu eu hanghenion. Yn ogystal, nid oedd gan y staff y sgiliau i ddiwallu

anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau (AAAA).

5.11 Canfu'r arolygiad thematig hefyd fod plant yn cael llawer llai o oriau o wersi bob dydd na phlant yn y gymuned, oherwydd y problemau systemig mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Dros y 10 mlynedd diwethaf, roedd cyfleoedd am brofiad gwaith a chysylltiadau â chyflogwyr hefyd wedi dod yn fwy cyfyngedig, a oedd yn gadael plant heb y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i'w helpu i ddod o hyd i waith ar ôl cael eu rhyddhau.

5.12 Roedd prinder difrifol staff yn y ddalfa ieuenctid wedi ei gwneud yn anodd i staff ffurfio unrhyw fath o berthynas â'r plant yn eu gofal, ac roedd trefniadau cymysgu rhy gyfyngol rhwng plant yn golygu eu bod yn treulio gormod o amser yn eu celloedd yn hytrach nag mewn addysg neu hyfforddiant. Roedd hyn yn creu cylch dieflig, lle'r oedd plant yn teimlo'n ynysig, yn ddigalon ac yn rhwystredig, a oedd yn arwain at ymddygiad gwael a chyfyngiadau pellach ar symudiadau plant o amgylch Sefydliadau Troseddwyr Ifanc wrth i arweinwyr geisio ei reoli.

5.13 Roedd canfyddiadau'r arolygiad thematig yn glir: roedd arweinyddiaeth a chydweithio gwael rhwng darparwyr addysg a llywodraethwyr dros y 10 mlynedd diwethaf yn golygu mai ychydig o fesurau effeithiol a chynaliadwy oedd wedi cael eu rhoi ar waith i ddelio â'r safonau sy'n dirywio'n gyflym yn y ddarpariaeth addysg mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc.

# Atodiad I Nodweddion demograffig a chefndir

## Nodweddion demograffig a chefndir eraill y plant a lenwodd yr holiadur – yn gyffredinol, rhwng mathau o ddata hunan-gofnodedig, ac o fewn sefydliadau.

| | | | | Sefydliadau Troseddwyr Ifanc | | | Cyfanswm y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc | Canolfannau Hyfforddi Diogel | Cyfanswm y Canolfannau Hyfforddi Diogel | Cyfanswm yr holl blant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cookham Wood | Wetherby a Keppel | Werrington | Feltham | Parc | | Oakhill | | |
| **Rhywedd** | Gwryw | 100% | 97% | 100% | 100% | 100% | **99%** | 98% | 98% | **99%** |
| | Benyw | 0% | 1% | 0% | 0% | 0% | **0%** | 0% | 0% | **0%** |
| | Anneuaidd | 0% | 2% | 0% | 0% | 0% | **1%** | 2% | 2% | **1%** |
| **Oedran** | 14 oed neu iau | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | **0%** | 2% | 2% | **0%** |
| | 15 | 3% | 1% | 0% | 6% | 0% | **2%** | 13% | 13% | **4%** |
| | 16 | 15% | 21% | 9% | 13% | 14% | **15%** | 37% | 37% | **18%** |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 17 | 44% | 41% | 62% | 56% | 61% | **51%** | 44% | 44% | **50%** |
| | 18 neu hŷn | 38% | 36% | 29% | 25% | 25% | **31%** | 4% | 4% | **27%** |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 21% | 51% | 30% | 30% | 57% | **38%** | 28% | 28% | **37%** |
| | Cymysg | 21% | 18% | 21% | 21% | 21% | **20%** | 25% | 25% | **21%** |
| | Asiaidd | 46% | 14% | 27% | 35% | 11% | **26%** | 25% | 25% | **25%** |
| | Du | 13% | 11% | 14% | 13% | 4% | **12%** | 11% | 11% | **12%** |
| | Arabaidd | 0% | 1% | 0% | 1% | 4% | **1%** | 0% | 0% | **1%** |
| | Arall | 0% | 5% | 8% | 0% | 4% | **3%** | 11% | 11% | **5%** |
| **Teithiwr** | Ie | 5% | 7% | 6% | 10% | 4% | **7%** | 9% | 9% | **7%** |
| | Na | 95% | 93% | 94% | 90% | 96% | **93%** | 91% | 91% | **93%** |
| **Crefydd** | Dim crefydd | 9% | 30% | 24% | 19% | 44% | **25%** | 20% | 20% | **24%** |
| | Cristion | 57% | 43% | 34% | 41% | 36% | **41%** | 33% | 33% | **40%** |
| | Bwdhydd | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | **0%** | 0% | 0% | **0%** |
| | Iddew | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | **0%** | 0% | 0% | **0%** |
| | Mwslim | 34% | 24% | 40% | 39% | 20% | **32%** | 43% | 43% | **33%** |
| | Sikh | 0% | 1% | 2% | 3% | 0% | **1%** | 0% | 0% | **1%** |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Arall | 0% | 2% | 0% | 0% | 0% | **1%** | 4% | 4% | **1%** |
| **Problemau iechyd** | Oes | 55% | 53% | 44% | 48% | 32% | **48%** | 35% | 35% | **46%** |
| | Nac oes | 45% | 47% | 56% | 56% | 68% | **52%** | 65% | 65% | **54%** |
| **Anabledd** | Oes | 28% | 35% | 25% | 32% | 39% | **32%** | 40% | 40% | **33%** |
| | Nac oes | 72% | 65% | 75% | 68% | 61% | **68%** | 60% | 60% | **67%** |
| **Wedi derbyn gofal yn yr awdurdod lleol** | Do | 72% | 73% | 48% | 74% | 62% | **67%** | 57% | 57% | **65%** |
| | Naddo | 28% | 27% | 52% | 26% | 38% | **33%** | 43% | 43% | **35%** |
| **Plant** | Oes | 8% | 12% | 9% | 10% | 14% | **11%** | 7% | **7%** | **10%** |
| | Nac oes | 92% | 88% | 91% | 90% | 86% | **89%** | 93% | **93%** | **90%** |

# Atodiad II Methodoleg

## Gweinyddu'r arolwg

Ar adeg yr arolwg, ceisiodd ymchwilwyr o Arolygiaeth Carchardai EF wahodd pob plentyn ym mhob canolfan hyfforddi ddiogel a sefydliad troseddwyr ifanc i lenwi holiadur. Mewn rhai achosion, er enghraifft pan oedd plentyn yn y llys neu mewn ysbyty allanol, nid oedd yn bosibl siarad â phob plentyn. Cafodd cyfanswm o 95% o blant a oedd yn cael eu cadw mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel adeg ein harolwg y cyfle i lenwi holiadur. Gwnaethpwyd pob ymdrech i siarad â phob plentyn yn unigol i esbonio pwrpas a chyfrinachedd yr arolwg, ei natur wirfoddol ac annibyniaeth y broses arolygu. Roeddem hefyd wedi cynnig gweinyddu'r holiadur drwy gyfweliad ar gyfer plant a ddywedodd fod angen cymorth arnynt.

Gofynnwyd i'r plant beidio â rhoi eu henw ar eu holiadur, ond er mwyn i ni allu mynd ar drywydd unrhyw faterion amddiffyn a diogelu plant, cafodd pob holiadur rif fel bod modd olrhain unrhyw sylwadau perthnasol yn ôl i'r atebydd. Roedd y plant yn ymwybodol o hyn. Rhoddwyd holiaduron wedi'u llenwi eu hunain mewn amlenni wedi'u selio a chawsant eu casglu gan ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF.

## Cyfradd ymateb

Ar gyfer arolygon 2024-25, fel y dangosir yn Nhabl 1, cafodd holiaduron eu llenwi (naill ai gan y plant eu hunain neu drwy gyfweliad) a'u dychwelyd gan 82% o'r plant yn y sampl a oedd ar gael (gan gynrychioli 76% o'r plant a oedd yn byw yn y sefydliad adeg yr arolwg). Roedd y gyfradd ymateb yn amrywio o 76% yn Wetherby a Keppel i 100% yn y Parc.

**Tabl 1: Maint y samplau a'r cyfraddau ymateb ar draws Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn ystod 2024-25**
Mae'r gyfradd ymateb ar gyfer Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel wedi cael ei chyfrifo fel cyfran o gyfanswm y plant a gafodd gynnig holiadur.

| Sefydliad Troseddwyr Ifanc | Dyddiad yr arolwg | Poblogaeth ar ddyddiad yr arolwg | Nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd | Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd | Cyfradd ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| Cookham Wood | 10 Ebrill 2024 | 48 | 47 | 39 | 83% |
| Wetherby a Keppel | 22 Hydref 2024 | 149 | 140 | 107 | 76% |
| Werrington | 07 Mai 2024 | 83 | 76 | 65 | 86% |
| Parc | 22 Ionawr 2025 | 29 | 29 | 29 | 100% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Feltham A | 30 Medi 2024 | 113 | 99 | 81 | 82% |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc** | | **422** | **391** | **321** | **82%** |

| Canolfan Hyfforddi Ddiogel | Dyddiad yr arolwg | Poblogaeth ar ddyddiad yr arolwg | Nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd | Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd | Cyfradd ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| Oakhill | 22 Mai 2024 | 69 | 65 | 54 | 83% |
| **Cyfanswm Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel** | | **491** | **456** | **375** | **82%** |

## Dim ymateb

Mae data coll, lle nad yw ymatebwyr wedi ateb cwestiwn, wedi cael eu heithrio o'r dadansoddiad. Mae hyn yn golygu bod y canrannau a gyfrifwyd yn dod o gyfanswm lle gallai cyfraddau ymateb fod wedi bod yn wahanol ar gyfer pob cwestiwn yn yr arolwg.

Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mewn rhai achosion, oherwydd y ffordd rydym yn talgrynnu'r data, gall canlyniad o 0% fod wedi cael ei adrodd a/neu ei brofi gan nifer fach iawn o blant. Er enghraifft, ar draws y sampl cyfan o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc o 337 o unigolion, byddai ymateb un plentyn ar fater penodol yn ymddangos fel 0% yn ein hadroddiad.

## Dadansoddiadau a gynhaliwyd

Yn ogystal â chyflwyno'r ymatebion i'r arolwg cyfunol ar gyfer plant yn y ddalfa (ar draws pob Canolfan Hyfforddi Ddiogel a Sefydliad Troseddwyr Ifanc), adroddir ar ddadansoddiadau ychwanegol:

- cymharu ymatebion i'r arolwg yn 2024-25 â'r rheini yn 2023-24
- cymhariaeth rhwng yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan blant mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc
- ymatebion gan blant ym mhob Canolfan Hyfforddi Ddiogel a Sefydliad Troseddwyr Ifanc, yn ogystal â'r ymateb cyffredinol gan blant yn y math hwnnw o ddalfa

- cymariaethau ystadegol rhwng gwahanol is-grwpiau yn ymatebion 2024–25, lle’r oedd niferoedd yn caniatáu. Mae unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol wedi’u hamlygu yn y tablau.

Hawlfraint y Goron 2025

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai EF
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
England

Mae pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.